# Tirweddau, parciau a natur



Ni fu erioed mor hanfodol gofalu am fyd natur a helpu pobl i ddeall ei bwysigrwydd.

Ers 1994, rydym wedi dyfarnu dros **£2.2biliwn** o arian y Loteri Genedlaethol a chyllid arall i 5,100 o brosiectau tir, natur a bioamrywiaeth ar draws y DU.

Diogelu'r amgylchedd yw un o'n pedair egwyddor fuddsoddi Treftadaeth 2033. Ein gweledigaeth yw i dreftadaeth gael ei gwerthfawrogi, ei gofalu a'i chynnal i bawb, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn blaenoriaethu prosiectau tirwedd a natur sy'n:

- cefnogi adferiad byd natur
- cyflwyno atebion sy'n seiliedig ar fyd natur i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd
- ailgysylltu pobl â thirweddau, amgylcheddau morol a byd natur

## Yr argyfwng hinsawdd

Mae gan y sector treftadaeth rôl bwysig i'w chwarae o ran gostwng allyriadau nwyon t? gwydr a thaclo newid yn yr hinsawdd. Darganfod mwy am yr hyn yr ydym yn ei wneud i daclo’r argyfwng hinsawdd.

## Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan y prosiectau a ariannwn

Rydym eisiau i **bob math o brosiectau treftadaeth**, mawr a bach:

- gyfyngu ar unrhyw niwed posib i'r amgylchedd
- cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd ac yn enwedig ar fyd natur

Darllen ein harweiniad cynaladwyedd amgylcheddol.

## Sut i gael eich ariannu

Mae ein rhaglen ariannu Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar agor, gan ddarparu grantiau o £10,000 hyd at £10miliwn.

Archwilio ein cyllid sydd ar gael

## Mwy o wybodaeth

Darganfod pa brosiectau a ariannwn, a'r hyn y gallech chi ei wneud gyda'n buddsoddiad i helpu amddiffyn ein byd naturiol.

Expand All accordions

### Cynefinoedd a rhywogaethau



Rydym yn cefnogi prosiectau sy'n gwarchod ac yn gwella cynefinoedd ac yn diogelu rhywogaethau gwerthfawr y DU.

Yr hyn rydym yn ei ariannu

Expand All accordions

### Tirweddau



Disgwyliwn i brosiectau llwyddiannus ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan dirweddau a natur y DU.

Yr hyn rydym yn ei ariannu

Expand All accordions

## Parciau cyhoeddus a mannau gwyrdd trefol



Mae parciau cyhoeddus yn wynebu gostyngiad difrifol mewn cyllid gan awdurdodau lleol. Dyma sut y gallwn helpu eich parciau a mannau gwyrdd trefol.

Yr hyn rydym yn ei ariannu

Expand All accordions

## Gerddi a mynwentydd



Mae'r DU yn fyd-enwog am ei chyfoeth o barciau a gerddi hanesyddol. Dyma sut y gall ein cyllid helpu i ofalu amdanynt.

Yr hyn rydym yn ei ariannu